WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Archwiliad o Gyfrifon 2015-16 a 2016-17 – methiannau o ran rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu – **Cyngor Tref Glyn-nedd**

Blynyddoedd archwilio: 2015-16 a 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1027A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb yn gysylltiedig ag unrhyw swyddog, aelod neu unigolyn arall yn eu swyddogaeth unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Donna Fanariotis a Deryck Evans dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Tref Glyn-nedd.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Tref Glyn-nedd ac yn cynnig argymhellion i fynd i'r afael â'r methiannau hynny. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ddatganiadau Blynyddol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Cyngor Tref Glyn-nedd 4

Fy ngwaith archwilio 4

Prif ganfyddiadau 5

Argymhellion a chamau nesaf 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a darparu tystiolaeth ddigonol i mi gynnal yr archwiliad statudol ac felly ni allaf gynnig barn ar ba un a yw'r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno incwm a gwariant y Cyngor yn briodol ar gyfer y blynyddoedd archwilio 8

Nid yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiad Blynyddol 10

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o fy archwiliad o gyfrifon Cyngor Tref Glyn-nedd (y Cyngor) ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Yn ystod fy archwiliad nodais fethiannau sylweddol yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran y rheolaeth ariannol a'r rheolaeth fewnol.

2 Cyflwynir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau yn y Cyngor.

3 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o berygl y bydd methiannau llywodraethu o'r fath yn codi eto. Mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Tref Glyn-nedd

4 Mae Cyngor Tref Glyn-nedd wedi ei leoli yng Nghwm Nedd ac mae'n gwasanaethu poblogaeth o ryw 4,000. Mae'r Cyngor yn gwario tua £200,000 bob blwyddyn. Mae hyn yn ei roi yn y 15% mwyaf o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Ei braesept o ryw £130,000 yw ei brif ffynhonnell incwm. Caiff y praesept ei godi ar dalwyr y dreth gyngor yn y gymuned y mae'r cyngor yn ei gwasanaethu.

5 Cyn-glerc y Cyngor, Mr Clive Baker (y cyn-glerc) oedd y prif gyswllt ar gyfer yr archwiliad.

## Fy ngwaith archwilio

6 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned a thref yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol wedi ei gwblhau gan y cynghorau a'i gyflwyno i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

7 Bwriedir i fy ngwaith archwilio arferol fod yn gymesur i faint cynghorau tref a chymuned a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a chaniatáu i gynghorau gyhoeddi cyfrifon a archwiliwyd yn unol â'r amserlen statudol ar gyfer cynghorau.

8 Oherwydd oedi cyn derbyn y datganiadau blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ac anawsterau dro ar ôl tro i gysylltu â'r cyn-glerc a chael gafael ar wybodaeth ganddo, cyfeiriodd yr archwilwyr enwebedig Gyngor Tref Glyn-nedd i mi. Ehangais gwmpas fy ngwaith oherwydd y risg uwch sy'n gysylltiedig â chwblhau a chyflwyno

cyfrifon yn hwyr a methiannau i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth at ddiben yr archwiliad.

# Prif ganfyddiadau

9 Nododd fy ngwaith archwilio broblemau sylweddol o ran y datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol, sef:

- mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a darparu tystiolaeth ddigonol imi gynnal yr archwiliad statudol; ac
- nid yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiad Blynyddol

10 O ganlyniad i'r problemau a nodwyd wrth archwilio, nid wyf yn gallu dod i gasgliad ar ba un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno trafodiadau ariannol y Cyngor yn briodol. Hefyd, mae'r diffygion yr wyf wedi eu nodi yn golygu nad oes gan y Cyngor drefniadau addas ar waith, yn fy marn i, i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o'i adnoddau. Felly, byddaf yn cyflwyno barn archwilio amodol ar gyfer cyfrifon 2015-16 a 2016-17.

11 Caiff y canfyddiadau hyn, sy'n amlygu elfennau o drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol wael, eu hystyried yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

# Argymhellion a'r camau nesaf

12 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cymryd camau cadarnhaol yn awr i fynd i'r afael â'r diffygion yr wyf wedi'u nodi yn yr archwiliad. Felly, rwyf wedi ystyried y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd mewn ymateb i fy nghasgliadau cychwynnol ac wedi cynnig deg argymhelliad i wella.

## Camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd eisoes

13 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r digwyddiadau hyn. Rwy'n deall bod y Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau, gan gynnwys:

- Trafod fy nghanfyddiadau a'm casgliadau cychwynnol mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2019;
- Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol newydd ym mis Chwefror 2019 ac mae'n sicrhau y dilynir y rheoliadau newydd hyn;
- Dechrau'r broses o gaffael darparwr archwilio mewnol newydd;
- Pennu cyllideb ar gyfer y flwyddyn yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
- Penodi swyddog ariannol cyfrifol a chlerc newydd; a
- Datblygu asesiad risg ariannol a gaiff ei fonitro a'i ystyried yng nghyfarfodydd y cyngor.

## Argymhellion

14 Ar sail fy adolygiad, tynnaf sylw'r Cyngor at y deg o argymhellion canlynol:

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall y broses a'r amserlen archwilio ac yn monitro cynnydd yr archwiliad. |
| A2 | Gan ei fod yn gweithredu cyfriflyfr digidol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau cadw wrth gefn ar waith i ddiogelu rhag achosion posibl o golli data. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei brif gofnodion cyfrifyddu gan gynnwys cyfriflenni banc, cofnodion cyflogres ac anfonebau yn cael eu storio mewn ffordd resymegol a hygyrch. |
| A4 | Dylai'r Cyngor adolygu ei gofnodion o asedau a benthyciadau a sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn briodol yn ei ddatganiadau cyfrifyddu blynyddol. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni ei hun bod yr haeriadau a wneir yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau llywodraethu sydd ar waith cyn iddo gymeradwyo ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| A6 | Cyn iddo gymeradwyo ei gyfrifon, dylai'r Cyngor sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu wedi eu paratoi yn unol ag arferion priodol. |
| A7 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu paratoi a'u dilysu yn rheolaidd drwy'r flwyddyn ac ar 31 Mawrth bob blwyddyn. |
| A8 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn pennu ei braesept dim ond pan fydd wedi derbyn cyllideb fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, sy'n cael ei baratoi yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. |
| A9 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth archwilio mewnol bob blwyddyn gan gynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer yr archwilydd mewnol a'r gwaith a wneir gan yr archwilydd mewnol. |
| A10 | Dylai'r Cyngor nodi'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi ar ei wefan a gwneud trefniadau i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). |

## Y camau nesaf

15 Mae'n ofynnol o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
- pha gamau i'w cymryd (os o gwbl) mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

16 Bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig wedyn a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

19 Mehefin 2019

# Adroddiad manwl

## Mae’r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a darparu tystiolaeth ddigonol i mi gynnal yr archwiliad statudol ac felly ni allaf gynnig barn ar ba un a yw’r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno incwm a gwariant y Cyngor yn iawn ar gyfer y blynyddoedd archwilio

17 Mae fy archwiliad wedi ei rwystro gan nifer o broblemau yn gysylltiedig â’r datganiadau cyfrifyddu gan gynnwys:

- methiannau dro ar ôl tro gan y cyn-glerc i ymateb i ymholiadau archwilio ac i ddarparu gwybodaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer yr archwiliad;
- methiant gan y Cyngor i gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- cofnodion atodol wedi eu cyflwyno ar hap ac yn anhrefnus;
- methiant i gydymffurfio ag arferion cyfrifyddu priodol; a
- diffyg trywydd archwilio ar gyfer y datganiadau cyfrifyddu ac anghysondebau heb eu hesbonio.

### Methodd y cyn-glerc dro ar ôl tro â darparu gwybodaeth a oedd yn ofynnol at ddiben yr archwiliad ac ymateb i ymholiadau archwilio yn brydlon

18 Er y bwriedir i’r trefniadau archwilio cyffredinol fod yn gymesur ac i ddarparu archwiliad statudol am gost resymol i’r Cyngor, mae hyn yn ddibynnol ar y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddarparu gwybodaeth ddigonol i’r archwilydd allanol gwblhau’r archwiliad, ac i hon gael ei darparu yn brydlon.

19 Mae archwiliadau 2015-16 a 2016-17 wedi bod yn destun oedi sylweddol oherwydd gwallau yn y cyfrifon, methiant y cyn-glerc i ddarparu gwybodaeth i’r tîm archwilio neu i ymateb i gyfathrebu gan y tîm archwilio yn brydlon.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol o'i drafodiadau yn ystod y flwyddyn

20 Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol, sef y Clerc yn achos y Cyngor, benderfynu ar ran y corff, ar ôl ystyried arferion priodol, ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a chofnodion cyfrifyddu ategol, a'i systemau rheolaeth gyfrifyddu.

21 Nodir arferion priodol yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r arferion priodol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw llyfr arian parod neu lyfr cyfatebol er mwyn cofnodi trafodiadau, a chadw dogfennau gwreiddiol i ddarparu tystiolaeth i gadarnhau'r trafodiadau sydd wedi eu cofnodi yn y llyfr arian parod. Roedd y Cyngor yn cadw ei lyfr arian parod ar ffurf llyfr arian parod electronig.

22 Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu copi o'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol ar gyfer yr archwiliad a oedd wedi eu cadw ar liniadur. Esboniodd y cyn-glerc fod hyn oherwydd bod feirws cyfrifiadur wedi arwain at golli'r holl ddata. Nid oedd gan y Cyngor drefniadau ar waith i greu copi wrth gefn o'r data ac felly nid oedd y Cyngor yn gallu darparu copi o'r cyfriflyfr.

## Roedd y cofnodion cyfrifyddu a gyflwynwyd i'w harchwilio ar hap ac yn anghyflawn

23 Pan drosglwyddwyd yr archwiliad o BDO i Swyddfa Archwilio Cymru, gofynnwyd i'r cyn-glerc gyflwyno holl gofnodion cyfrifyddu'r Cyngor i hwyluso fy ngwaith archwilio. Darparodd y cyn-glerc y cofnodion hyn mewn dau focs, un bob un ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.

24 Nododd fy nhîm archwilio fod y cofnodion a ddarparwyd wedi eu rhoi yn y bocs ar hap, a bod gwahanol fathau o gofnodion wedi eu cymysgu gyda'i gilydd, e.e. cyfriflenni banc wedi eu cymysgu ymysg adroddiadau chwarterol ac anfonebau. Mae'r broses cadw cofnodion anhrefnus hon wedi achosi oedi sylweddol a chost ychwanegol wrth gynnal yr archwiliad.

25 Hefyd, methodd y cyn-glerc â darparu set gyflawn o gyfriflenni banc. Mae cwmpas fy archwiliad wedi bod yn gyfyngedig felly, yn sgil absenoldeb y llyfr arian parod/cyfriflyfr gwreiddiol a'r cofnodion anghyflawn a ddarparwyd gan y cyn-glerc.

## Mae'r datganiadau cyfrifyddu yn cynnwys nifer o anghysondebau heb eu hesbonio

26 Mae fy ngwaith archwilio wedi nodi hefyd nifer o anghysondebau yng nghyfrifon 2015-16 nad oedd y cyn-glerc yn gallu cynnig esboniad addas ohonynt:

- Nid yw cyfanswm y benthyciadau a adroddir yn y cyfrifon yn cyd-fynd â'r cadarnhad a roddwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.
- Nid yw'n ymddangos bod cyfanswm yr asedau sefydlog yn adlewyrchu ychwanegiadau at asedau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

## Oherwydd methiannau'r Cyngor a nodwyd uchod, ni allaf ddod i gasgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno'n briodol incwm a gwariant a sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a 2017

27 Mae'r methiant i gadw cofnodion cyfrifyddu priodol fel y nodir uchod yn golygu na allaf ddod i gasgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn adran 1 o ddatganiad blynyddol 2015-16:

- yn cynrychioli incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016;
- yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon; ac
- wedi eu crynhoi yn unol ag arferion priodol.

28 Byddaf yn cyflwyno barn archwilio sy'n amodol felly, oherwydd cyfyngiad i gwmpas yr archwiliad yn deillio o fethiant y Cyngor i gadw cofnodion cyfrifyddu priodol.

# Nid yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiad Blynyddol

29 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Datganiad Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol ynghylch y trefniadau sydd ganddo ar waith ar gyfer ei lywodraethu a'i reolaeth ariannol. Cyfeirir at hwn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei adolygu a'i gymeradwyo yn ddatganiad cywir gan y Cyngor.

30 Er y gall union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae'n ymdrin yn fras â'r meysydd canlynol:

## Arddangosyn 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, mae’r Cyngor yn nodi chwe haeriad y mae’r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad yn eu gwrth-ddweud a dau arall nad oes digon o dystiolaeth ar gael i mi allu dod i gasgliad yn eu cylch.

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi paratoi a chymeradwyo’r datganiadau cyfrifyddu yn briodol | Do | Naddo |
| Wedi cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau i atal a chanfod twyll a llygredd | Do | Naddo |
| Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau, rheoliadau a chodau ymarfer | Do | Naddo |
| Wedi cynnig cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr o ran y cyfrifon | Do | Do |
| Wedi cynnal asesiad o’r risgiau sy’n wynebu’r Cyngor | Do | Do |
| Wedi cynnal system briodol ac effeithiol o archwilio mewnol | Do | Naddo |
| Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodiadau | Do | Methu â dod i gasgliad |
| Cymerwyd camau priodol o ran adroddiadau archwilio mewnol ac allanol | Do | Methu â dod i gasgliad |
| **2015-16 yn unig** | | |
| Wedi cyfrifo a chymeradwyo’r gofyniad cyllidebol fel sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith | Do | Naddo |
| Wedi derbyn adroddiadau ariannol manwl ar dderbyniadau a thaliadau a sefyllfa ariannol y Cyngor ac wedi monitro’r sefyllfa ariannol o’i chymharu â’r gyllideb | Do | Naddo |
| Wedi sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn annibynnol ar broses gwneud penderfyniadau’r cyngor a’r gwaith o gadw’r cofnodion cyfrifyddu | Do | Do |
| **2016-17 yn unig** | | |
| Wedi cofrestru fel cyflogwr gyda Chyllid a Thollau EM | Do | Do |
| Wedi cadw cofnodion cyflogres priodol | Do | Do |

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi mabwysiadu Cod Ymarfer ar gyfer aelodau | Do | Do |

Ffynhonnell: Datganiad Blynyddol Glyn-nedd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

31 Ar gyfer y ddwy flwyddyn archwilio a drafodir yn yr adroddiad hwn, 2015-16 a 2016-17, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r datganiadau fel y nodwyd uchod ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Pan fo haeriad cadarnhaol wedi ei wneud, nid yw wedi egluro ei ymatebion nac wedi cynnig esboniadau ynghylch meysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau.

32 Yn fy marn i felly, nid yw'r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor yn gyson â'r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennau.

33 Yr hyn sy'n eglur i mi yw nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ac wedi eu datgelu yn deg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod yn ddigonol na chymryd camau yn sgil problemau o ran digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

34 Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn cyflwyno nifer o ddiffygion a gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn gwbl amlwg i mi yn ystod yr archwiliad.

## Ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio ag arferion cyfrifyddu priodol wrth baratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu

35 Mae arferion priodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd incwm a gwariant Cyngor yn fwy na £200,000 am dair blynedd yn olynol, iddo baratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar sail croniadau, gan adrodd trafodiadau yn y flwyddyn ariannol y maent yn gysylltiedig â hi yn hytrach na phan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

36 Paratowyd y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 ar sail derbyniadau a thaliadau yn wreiddiol. Mae arferion cyfrifyddu priodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon gael eu paratoi ar sail incwm a gwariant (croniadau). Diwygiwyd y cyfrifon gan y Cyngor ond nid yw wedi gallu darparu cofnodion i ategu'r cyfrifon diwygiedig na ffurfio unrhyw drywydd archwilio rhwng adroddiadau derbyniadau a thaliadau chwarterol a'r cyfrifon incwm a gwariant.

## Roedd y cysoniad banc a gyflwynwyd i'w archwilio ar gyfer 2015-16 yn anghywir ac nid oedd yn cyd-fynd â'r datganiadau cyfrifyddu

37 Y cysoniad banc yw un o'r rheolaethau cyfrifyddu allweddol ar gyfer pob cyngor. Mae cysoni llyfr arian parod/cyfriflyfr y cyngor â'r gyfriflen banc yn fesur rheoli hanfodol sy'n sicrhau bod y llyfr arian parod/cyfriflyfr yn gofnod cyflawn a chywir o'i drafodiadau. Nododd fy ngwaith archwilio anghysondebau rhwng y balans arian parod a banc a adroddwyd yn y cyfrifon a'r cysoniad banc.

38 Mae'r cyn-glerc o'r farn bod y newidiadau gofynnol i gynnwys TAW yn yr adroddiadau wedi arwain at anghysondeb yn y cysoniad banc. Gan fod y cofnodion yn anghyflawn, nid wyf yn gallu dod i gasgliad ynghylch pa un a yw'r haeriad hwn yn esbonio'r anghysondebau ai peidio.

39 Mae'r anghysondebau hyn yn nodi methiant o ran rheolaeth fewnol bwysig.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ar gyfer pennu ei ofyniad cyllidebol ac mae wedi pennu ei braesept mewn modd sy'n mynd yn groes i'r gyfraith

40 Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn cyflwyno praesept i awdurdod bilio'r dreth gyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Y praesept yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor i ariannu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, mae'r Cyngor yn gwneud haeriad cadarnhaol ei fod wedi cymeradwyo ei ofyniad cyllidebol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Nododd hefyd ei fod yn derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd i fonitro ei incwm a'i wariant o'i gymharu â'i gyllideb.

41 Mae'r praesept blynyddol oddeutu £130,000.

### Arddangosyn 2: Praesept blynyddol Cyngor Tref Glyn-nedd

Yn 2015-16 a 2016-17, pennodd y Cyngor braesept o ryw £130,000

| | **2015-16 (£)** | **2016-17 (£)** |
|---|---|---|
| Praesept blynyddol – wedi ei godi ar ffurf treth gyngor | 129,676 | 132,204 |

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

42 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol er mwyn pennu ei braesept. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol trwy ystyried swm cyfanredol:

- y gwariant y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei wneud yn ystod y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau;

- lwfans o’r fath y mae’r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn briodol ar gyfer hapddigwyddiadau o ran gwariant;
- y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn briodol eu casglu yn ystod y flwyddyn i fodloni ei amcangyfrif o wariant yn y dyfodol neu i fodloni unrhyw ddiffyg a gafwyd mewn blwyddyn ariannol gynharach;
- y symiau y mae’n amcangyfrif a fydd yn daladwy i’r Cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac eithrio’r praesept; a
- chyfran y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae’r awdurdod yn amcangyfrif y bydd yn ei defnyddio i ariannu ei wariant.

43 Y praesept a gyflwynir i awdurdod bilio’r dreth gyngor yw net yr eitemau hyn wedyn.

44 Er gwaethaf yr haeriad cadarnhaol a wnaed gan y Cyngor yn ei Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17, nid yw wedi gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf ac wedi ystyried cyllideb ar gyfer y flwyddyn yn briodol. Mae cofnodion y Cyngor yn dangos mai’r cwbl y mae’n ei wneud yw ystyried amserlen yn dangos cyfres o godiadau canran i’r praesept. Mae’r Cyngor yn pennu’r gofyniad cyllidebol wedyn, yn seiliedig ar yr amserlen hon o godiadau posibl.

45 Yn fy marn i, yn dilyn y broses hon, ni wnaeth y Cyngor bennu praesept cyfreithlon.

46 Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor gyfres o adroddiadau ariannol gan y clerc ar y pryd yn nodi pa arian oedd wedi ei dderbyn a’i dalu allan. Fodd bynnag, ar y sail na wnaeth y Cyngor bennu cyllideb briodol, mae’n dilyn na wnaeth reoli ei gyllid yn effeithiol yn unol â’r gyllideb ddisgwyliedig.

47 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20, mae’r Cyngor wedi pennu cyllideb fanwl i gefnogi ei ofyniad praesept.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi’r sicrwydd a ddarparwyd gan archwilydd mewnol y Cyngor ac nid yw’r archwiliad mewnol, yn fy marn i, yn addas ac effeithiol

48 Cyflogwyd Mr Lyn Llewellyn gan y Cyngor i ddarparu ei wasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Darparodd Mr Llewellyn adroddiad manwl i’r Cyngor ar ganlyniad ei waith a chwblhaodd restr wirio ar gefn ei ddatganiadau blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd. Mae adroddiadau Mr Llewellyn ar gefn y datganiadau blynyddol yn gwneud haeriadau cadarnhaol mewn sawl maes lle canfuwyd diffygion gennyf i.

Arddangosyn 3: Sicrwydd archwilio mewnol

Mae adroddiad yr archwiliad mewnol yn darparu sicrwydd cadarnhaol na chaiff ei gefnogi

| Haeriad | Casgliad archwiliad mewnol | Casgliad archwiliad allanol |
|---|---|---|
| Cadwyd llyfrau cyfrifon priodol drwy gydol y flwyddyn. | Do | Naddo |
| Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ ardoll/ adnoddau o broses gyllidebol addas, cafodd cynnydd o'i gymharu â'r gyllideb ei fonitro yn rheolaidd, ac roedd cronfeydd wrth gefn yn briodol. | Do | Naddo |
| Cyflawnwyd cysoniadau cyfrif banc yn gyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn yn briodol. | Do | Naddo |
| Paratowyd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), gan gyd-fynd â'r llyfr arian parod, wedi eu hategu gan drywydd archwilio priodol o gofnodion sylfaenol, a phan fo'n briodol, cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn gywir. | 2016 – Naddo<br>2017 – Do | 2016 – Naddo<br>2017 – Naddo |

gan y dystiolaeth a roddir yn yr archwiliad allanol

49 Oherwydd y problemau a nodwyd yn ystod yr archwiliad, gwnaeth fy nhîm archwilio gais i adolygu ffeiliau archwilio Mr Llewellyn. Nododd fy adolygiad ddiffyg tystiolaeth i gefnogi canfyddiadau Mr Llewellyn.

50 Nododd Mr Llewellyn fod y cyn-glerc wedi rhoi cofnodion y Cyngor iddo mewn modd anhrefnus yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd ar gyfer yr archwiliad allanol.

51 Mewn dogfen ysgrifenedig a gyflwynodd i mi, mae Mr Llewellyn yn dadlau yn groes i fy nghasgliadau i fel y'u nodir yn Arddangosyn 3. Mae'n nodi:

- Mae'n cofio bod yna lyfrau arian parod misol, a bod y rhain wedi'u cysoni yn briodol â'r cyfriflenni banc a'i fod yn fodlon ynghylch eu cywirdeb.
- Cafodd ddatganiadau cyllideb ar gyfer y ddwy flwyddyn ynghyd ag o leiaf dau adroddiad monitro a gwiriodd fod y cronfeydd wrth gefn yn briodol.
- Mae'n cofio'n glir ei fod wedi archwilio'r cysoniadau banc misol a baratowyd gan y clerc ac mai dyna y bydd yn ei wneud fel arfer wrth gyflawni gwaith archwilio mewnol.

52 Mae Mr Llewellyn yn derbyn na pharatowyd y cyfrifon ar y sail briodol, gan ddweud na fyddai clerc y dref [Mr Clive Baker – y cyn-glerc] wedi newid i ddefnyddio sail gronnol o dan unrhyw amgylchiadau. Wedi ystyried hyn, mae'n cytuno bod ei ymateb yn anghywir o ran cyfrifon 2016-17.

53 Mae Mr Llewellyn o’r farn bod y papurau y darparodd y Cyngor i mi ar gyfer fy archwiliad yn anghyflawn. Mae Mr Llewellyn yn cydnabod ei fod wedi methu â gwneud copïau o dystiolaeth ddogfennol ac y dylai fod wedi gwneud hynny.

54 Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth ategol yn ffeil Mr Llewellyn a’r dystiolaeth a gafwyd yn rhan o’r archwiliad ac y rhoddir sylw iddi mewn rhannau eraill o’r adroddiad hwn, nid wyf o’r farn bod y broses archwilio mewnol yn gadarn. Rwy’n dod i’r casgliad felly na wnaeth y Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw’n cyhoeddi’r holl ddogfennau y mae’n ofynnol iddo eu cyhoeddi yn electronig

55 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol sicrhau bod eu manylion cyswllt ac aelodaeth ar gael i’w gweld, yn ogystal â chofnodion eu trafodion drwy’r fewnrwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau’r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon wedi’u harchwilio yn electronig.

56 Mae’r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwella atebolrwydd cynghorau lleol i’w hetholwyr.

57 Er bod y Cyngor wedi sefydlu gwefan, nododd fy archwiliad nad oedd wedi cyhoeddi’r wybodaeth y mae’n ofynnol iddo ei chyhoeddi yn electronig. Er enghraifft, nid yw’r wefan yn cynnwys copi o gofrestr buddiannau’r aelodau, hysbysiadau archwilio na chyfrifon y Cyngor wedi’u harchwilio. Dim ond cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Medi 2018 y mae’r Cyngor wedi eu cyhoeddi.

58 Ers mis Chwefror 2019, mae’r Cyngor wedi cyhoeddi cofnodion mwy diweddar ar ei wefan. Fodd bynnag, mae dogfennau eraill y mae’n ofynnol i’r Cyngor eu cyhoeddi ar-lein yn parhau i fod yn anghyflawn.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru